

LLYWODRAETH CYMRU

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis*) (Ardal a Ddarnodir 9)

Mae arolygydd Iechyd planhigion, wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru at ddibenion Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau"), wedi nodi presenoldeb *Phytophthora pluvialis* ar safleoedd yn sir Powys.

Wrth arfer y pwerau a roddir gan Reoliad 17(2) o'r Rheoliadau, rwy'n cyflwyno'r hysbysiad canlynol:

Dyfynnu

1. Gellir cyfeirio at yr hysbysiad hwn fel yr Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis* 09) (Cymru), a
2. Gan ddechrau ar 24 Ionawr 2023, mae'n dirymu ac yn disodli'r Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis*) (Ardal a Ddarnodir 3) a wnaed ar 22 Ebrill 2022.

Ardal a ddarnodir

3. Yn unol â rheoliad 17(2)(a) o'r Rheoliadau, mae'r ardal yn siroedd Powys o fewn y ffin a ddisgrifir yn Atodiad 1, ac a ddangosir ar y map yn Atodiad 2 ar wefan Llywodraeth Cymru, wedi cael ei darnodi.

Gwahardd symud planhigion a allai gael yr haint

4. Yn unol â rheoliad 17(2)(b) o'r Rheoliadau, ni chaiff unrhyw unigolyn symud unrhyw blanhigion a allai gael yr haint o'r ardal a ddarnodir wedi'i nodi yn yr hysbysiad hwn, neu oddi fewn iddi, heb awdurdod ysgrifenedig gan Arolygydd Iechyd Planhigion.

Blanhigion perthnasol a allai gael yr haint

5. At ddibenion paragraff 4 uchod, mae planhigion a allai gael yr haint yn golygu unrhyw blanhigion ar gyfer plannu o'r genws ***Tsuga***, ***Pseudotsuga***, ***Pinus*** a ***Notholithocarpus*** sydd wedi dod o'r ardal a ddarnodir neu sydd yn yr ardal honno.

Dechrau'r gwaharddiad

6. Mae'r gwaharddiad a nodir yn yr hysbysiad hwn yn berthnasol ar ac ar ôl **24 Ionawr 2023** nes y dywedir fel arall.

Llofnod

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Bill MacDonald', with a large, stylized flourish at the end.

Bill MacDonald, Prif Swyddog Iechyd Planhigion Cymru

Llywodraeth Cymru, **17 Ionawr 2023**

ATODIAD 1

Disgrifiad o faint yr ardal a ddarnodir

Mae'r ffin yn dechrau yn SO115640, Pen-y-bont, wrth y gyffordd rhwng yr A44 a'r A488. Mae'r ffin yn dilyn yr A40 tuag at y Groes am 1km, gan groesi pont dros Afon Ithon.

Yn SO106645 mae'r ffin yn gadael yr A40 ac yn dilyn ffordd ddiddosbarth am 10.4km tua'r gogledd-ddwyrain nes iddo gyrraedd SO175716, Gorsaf Drenau Heol Llanbister.

O SO175716 mae'r rheilffordd i'r gogledd-orllewin o'r ffin. Mae'r ffin yn dilyn y ffordd ddiddosbarth am 1.5km arall. Yn SO188721 mae'r ffin yn gadael y ffordd ddiddosbarth ac yn ymuno â'r B4356 sy'n mynd i'r dwyrain tuag at Langynllo. Mae'r ffin yn dilyn y B4356 am 6.4km i Monaughty gan fynd drwy Langynllo, mae Afon Llugwy ochr yn ochr â'r B4356. Yn SO238689 mae'r ffin yn ymuno â'r A488 tua'r de i Fleddfa am 300m.

Mae'r ffin yn cyrraedd cyffordd yn SO238685. Yn y pwynt hwn mae'r ffin yn gadael yr A488 ac yn dilyn y B4356 am 3.8km i SO271672 yn Hwytyn. O SO271672 mae'r ffin yn gadael y B4356 ac yn dilyn y B4357 dros y bont dros Afon Llugwy am 10km gan fynd drwy Kinnerton i SO208606, Maesyfed.

Yn SO208606 ym Maesyfed mae'r ffin yn gadael y B4357 ac yn dilyn yr A44 am 15km gan deithio drwy Lanfihangel Nant Melan a Llandegley cyn cyrraedd SO115640, Pen-y-bont.